unigol ond gallan nhw egluro i chi sut maen nhw wedi delio â'ch pryderon.

Cefnogaeth i Ddioddefwyr
0845 30 30 900
Cefnogaeth i Ddioddefwyr yw'r elusen genedlaethol i bobl sydd wedi'u heffeithio gan droseddau. Mae'n sefydliad annibynnol sy'n cynnig gwasanaeth cyfrinachol am ddim i bob adran o'r gymuned. Gall gwirfoddolwyr gynnig cymorth emosiynol neu ymarferol.

Cwynion

Os bydd gennych gwyn am y gwasanaeth fyddwch chi'n ei gael, gallwch drafod gyda eich swyddog cyswllt dioddefwyr neu reolwr fydd yn ceisio eich helpu. Os na fydd hyn yn gweithio neu na fyddwch chi'n dymuno siarad â'r rheolwr, gallwch gwyno'n ysgrifenedig i Brif Swyddog eich ardal brawf leol. Os byddwch chi'n dal yn anfodlon, gallwch gwyno i fwrdd y gwasanaeth prawf lleol fydd yn ymchwilio i'ch pryderon. Os na all yr NPS ddatrys cwyn, bydd cam olaf yr apêl drwy eich AS lleol a all godi cwyn ar eich rhan gydag Ombwdsmon y Senedd.

Cwestiynau a gwybodaeth bellach

Os bydd gennych unrhyw gwestiwn am y wybodaeth yn y daflen hon, neu os hoffech drafod unrhyw bryderon gyda swyddog cyswllt dioddefwyr, gallwch gysylltu â'ch ardal brawf leol.

Cofiwch ofyn os byddwch chi'n dymuno cael y daflen hon mewn iaith wahanol.

Please ask if you would like this leaflet in a different language.

Cofiwch ofyn os byddwch chi'n dymuno cael y daflen hon mewn iaith wahanol.

如果你需要本宣传册的不同语言版本，请向我们索取。

कृपया पूछें कि यदि आप यह पत्रिका किसी दूसरी भाषा में चाहते हैं

જો તમને આ પત્રિકા બીજી ભાષામાં જોઈતી હોય તો, કૃપા કરી વિનંતી કરો.

Fadlan codso haddii aad doonaysid in qoraalkan laguugu turjumo luqad kale.

اگر یہ لیفلیٹ آپ کو مختلف زبانوں میں چاہیے تو براہِ مہربانی اس کے لیے کہیں۔

Hãy yêu cầu nếu quý vị muốn có tờ thông tin này bằng một thứ tiếng khác.

অন্য ভাষায় এই প্রচারপত্র পেতে চাইলে দয়া করে আমাদের অবহিত করুন।

www.probation.homeoffice.gov uk

GWASANAETH PRAWF CENEDLAETHOL

Cynllun Cyswllt Dioddefwyr

Cyflwyniad i Gynllun Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

NOMS Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
National Offender Management Service

Cynllun Cyswllt Dioddefwyr NPS

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS), yr heddlu neu'r Uned Gofal Tystion wedi rhoi'r daflen hon i chi i ddweud wrthych am Gynllun Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Prawf. Mae dyletswydd cyfreithiol ar Gynllun Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Prawf i gysylltu â chi oherwydd eich bod chi, neu rywun sy'n agos atoch wedi dioddef gan drosedd rywiol neu dreisiol a'r troseddwr wedi'i garcharu am 12 mis neu fwy, neu wedi'i gadw mewn ysbyty gyda chyfyngiadau o safbwynt ei ryddhau/rhyddhau.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd yr heddlu yn trosglwyddo eich manylion i'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr heblaw eich bod wedi dweud nad ydych yn dymuno hynny. Bydd swyddog cyswllt dioddefwyr yn cysylltu â chi dros y ffôn neu mewn llythyr i gynnig apwyntiad i chi yn eich cartref, neu mewn man cyfleus arall. Bydd y swyddog yn gwirio a oes gennych unrhyw anghenion arbennig yr hoffech i ni eu hystyried. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwch chi'n dymuno defnyddio cyfieithydd. Os byddwch chi'n cyfarfod y swyddog, mae'n bosibl y bydd ffrind neu wirfoddolwr o'r Cefnogaeth i Ddioddefwyr gyda chi.

Dylech glywed gan eich swyddog o fewn wyth wythnos i'r troseddwr gael ei ddedfrydu yn y llys. Os byddwch chi'n dymuno cysylltu cyn hynny, yna gallwch ffonio eich swyddfa brawf leol (bydd y rhif yn eich cyfeiriadur ffôn lleol) a gofyn iddyn nhw eich rhoi mewn cysylltiad â'ch Uned Cyswllt Dioddefwyr.

Mae eich cyfranogiad gyda'r gwasanaeth hwn yn gwbl wirfoddol, a gallwch newid eich meddwl am gysylltu â swyddog cyswllt dioddefwyr ar unrhyw adeg yn ystod dedfryd y troseddwr.

Beth ddylwn i ddisgwyl os bydda i'n cyfarfod â'r swyddog cyswllt dioddefwyr?

Bydd y swyddog yn:

- Gwirio os bydd gennych unrhyw bryderon am ymddygiad y troseddwr tuag atoch
- Egluro'r hyn sy'n digwydd i'r wybodaeth fyddwch chi'n ei rhoi i'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr
- Rhoi gwybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol a'r modd y mae carchardai ac ysbytai diogel yn gweithredu
- Egluro ystyr dedfryd y troseddwr a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud am hyd arhosiad y troseddwr mewn carchar neu ysbyty
- Gofyn a fyddech chi'n hoffi cael gwybodaeth am ddatblygiadau pwysig yn ystod dedfryd y troseddwr (er enghraifft, pan fydd carcharor yn cael ei symud i garchar neu ysbyty categori arall)
- Rhoi gwybodaeth am wasanaethau eraill y byddwch chi'n meddwl fyddai'n ddefnyddiol yn eich ardal leol

Beth os bydda i'n penderfynu cadw mewn cysylltiad gyda swyddog cyswllt dioddefwyr drwy gydol dedfryd y troseddwr?

Os byddwch chi'n dymuno cadw mewn cysylltiad â swyddog, gall ef/hi:

- Egluro sut y gallwch chi fynegi eich barn am yr amodau y tybiwch chi y dylid eu rhoi ar y troseddwr pan fydd yn cael ei ryddhau o'r carchar neu'r ysbyty yn y pen draw. Gall hyn gynnwys amod i beidio â chysylltu â chi neu â'ch teulu
- Ddweud wrthych pan fydd y troseddwr yn cael ei ryddhau ac unrhyw amodau sy'n berthnasol i chi
- Gadw mewn cysylltiad gyda chi tra bod y troseddwr yn cael ei arolygu yn y gymuned a'ch hysbysu pan fydd arolygiaeth y troseddwr yn gorffen

Rhifau defnyddiol eraill

Llinell Gymorth Troseddwyr y Gwasanaeth Carchardai
0845 7585 112
Gallwch ffonio'r llinell gymorth hon os byddwch chi'n bryderus am gyswllt gan garcharor nad ydych yn dymuno ei gael. Bydd staff y llinell gymorth yn trosglwyddo manylion eich galwad i lywodraethwr y carchar. Bydd ef wedyn yn ymchwilio i hyn ac yn penderfynu beth i'w wneud. Gall hyn olygu monitro gohebiaeth a galwadau ffôn carcharor. Ni all staff y llinell gymorth roi gwybodaeth i chi am garcharorion